senedd yr IFANC

# TÎM CYFRANOGIAD WRECSAM



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

www.wrecsam.gov.uk | www.wrexham.gov.uk

# TÎM CYFRANOGIAD WRECSAM

Mae Tîm Cyfranogiad pobl ifanc Wrecsam yn rhan o Wasanaeth Chwarae ac Ieuenctid Wrecsam ac mae'n gyfrifol am oruchwylio Senedd yr Ifanc a darparu cyfleoedd i bobl ifanc yn Wrecsam i gyfranogi.

Bydd y llyfryn gwybodaeth hwn yn rhoi trosolwg o'r gwasanaethau y gallwn eu darparu i bobl ifanc a phrosiectau yn Wrecsam.

## HYFFORDDIANT

### HYFFORDDIANT GWNEUD PENDERFYNIADAU - AR GYFER POBL IFANC

Agored Cymru – Lefel 1

Mae hyfforddiant gwneud penderfyniadau'n canolbwyntio ar

- y broses o wneud penderfyniadau,
- gweithio mewn tîm i wneud penderfyniadau
- deall effeithiau gwneud penderfyniadau

### HYFFORDDIANT TECHNEGAU CYFWELD - AR GYFER POBL IFANC

Agored Cymru – Lefel 1

Mae Hyfforddiant Technegau Cyfweld yn canolbwyntio ar

- y sgiliau sydd eu hangen i eistedd ar banel cyfweld
- deall swydd-ddisgrifiadau a manylion am yr unigolyn

## HAWLIAU PLANT

# HYFFORDDIANT CCUHP A CHYFRANOGIAD

### - AR GYFER POBL IFANC

Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar:

- CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)
- deall hawliau plant
- cyfranogiad pobl ifanc a llais ieuenctid

# HYFFORDDIANT Y CYNGOR YSGOL

### - AR GYFER POBL IFANC

Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar:

- deall rôl cynrychiolydd ar y cyngor ysgol
- deall rôl y cyngor ysgol
- deall rôl cyngor ysgol wrth wneud penderfyniadau ehangach

## DISGYBL LYWODRAETHWYR CYSWLLT*

### - HYFFORDDIANT CYNEFINO LLYWODRAETHWYR:

Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar:

- Y gwahanol fathau o lywodraethwyr a rôl y Cadeirydd a'r Clerc
- Rolau a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu
- Beth yw corff llywodraethu effeithiol a rôl y llywodraethwr wrth wella ysgol

* Darperir yr hyfforddiant hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## DEALL LEFELAU DEMOCRATIAETH**

### - AR GYFER POBL IFANC

Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar:

- deall rôl a phŵer y Cyngor Sir, Llywodraeth Cymru a Senedd y DU
- deall pwy sy'n eu cynrychioli ar bob lefel.
- deall yr hyn mae pleidlais yn ei olygu a chwalu mythau.

** Nid yw'r sesiwn hon yn trafod y tirlun gwleidyddol

# HYFFORDDIANT CYFRANOGIAD AC CCUHP

## - AR GYFER GWEITHWYR PROFFESIYNOL

Nod yr hyfforddiant yw:

- diffinio Cyfranogiad
- amlinellu Ysgol Cyfranogiad Hart ac annog meddwl ynglŷn â beth yw Cyfranogiad
- darparu gwybodaeth am gyfleoedd Cyfranogiad yma yn Wrecsam a sut y gall pobl ifanc gymryd rhan
- crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- darparu enghreifftiau o weithgareddau cyfranogiad y gellir eu defnyddio gyda phobl ifanc

# GRANTIAU

Mae'r Tîm Cyfranogiad yn hwyluso cynlluniau grantiau ieuenctid, i gael rhagor o wybodaeth am y grantiau sydd ar gael, cysylltwch â'r tîm ar youngvoices@wrexham.gov.uk neu 01978 317961

# CYNLLUN GWOBRAU

# GWIRFODDOLWYR YN YSBRYDOLI WRECSAM

Mae Cynllun Gwobrau Gwirfoddolwyr yn Ysbrydoli Wrecsam yn gynllun newydd a ddatblygwyd gan Wasanaeth Ieuenctid Wrecsam.  Nod y Cynllun Gwobrau yw cydnabod a gwobrwyo pobl ifanc 11 – 25 oed am eu llwyddiannau wrth wirfoddoli gyda Gwasanaeth Ieuenctid Wrecsam.

# Y COMISIYNYDD PLANT

## SGOWTIAID A GEIDIAID: HER HAWLIAU

Mae'r bathodyn yn galluogi Sgowtiaid a Geidiaid i ddysgu mwy am Hawliau Plant ac am y Comisiynydd Plant.

Datblygwyd y bathodyn i hysbysu plant a phobl ifanc am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a rôl Comisiynydd Plant Cymru.

Cynlluniwyd y bathodyn fel y gall pobl ifanc arwain eu dysgu eu hunain.

Bydd y Tîm Cyfranogiad yn darparu'r rhaglen

## SESIYNAU GWYBODAETH

Mae'r sesiynau hyn yn sesiynau anffurfiol llawn hwyl sy'n berffaith ar gyfer grwpiau ieuenctid. Gellir addasu pob sesiwn ar gyfer maint, oedrannau ac anghenion grwpiau unigol.

Dyma rai enghreifftiau o sesiynau:

Hawliau Plant - CCUHP

Llais Ieuenctid

Senedd yr Ifanc Wrecsam

Gwneud Penderfyniadau

Deall gwleidyddiaeth

Beth yw fforwm ieuenctid?

Cael llais ar benderfyniadau lleol

Os hoffech chi gysylltu â'r Tîm Cyfranogiad i drafod sesiwn a'r hyn y gallai sesiwn ei gynnwys, cysylltwch â: 01978 317961 neu youngvoices@wrexham.gov.uk

# YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC

A yw eich sefydliad neu brosiect yn awyddus i ymgysylltu â phobl ifanc?

Sut allech chi gynnwys pobl ifanc wrth gynllunio prosiect, cynllunio strategol neu ddarparu prosiectau?

Ydych chi eisiau gofyn i bobl ifanc am eu barn ar eich prosiect neu sefydliad, ond ddim yn gwybod ble i ddechrau?

Cysylltwch â'r Tîm Cyfranogiad i weld pa gefnogaeth y gellir ei gynnig.

Gall y Tîm Cyfranogiad ddarparu hyfforddiant a chymorth i staff a gwirfoddolwyr ar sut i ddechrau ymgysylltu gyda phobl ifanc wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.

senedd yr IFANC

Yma i gael lleisio eich barn a gwneud gwahaniaeth!
Wrecsam Wrexham
Cyngor Gofal Pobl Ifanc
Young People's Care Council
Here to get your voice heard and to make a change!

## SENEDD YR IFANC

Mae Senedd yr Ifanc Wrecsam yn gweithio gyda phobl ifanc 11-25 oed. Mae'r Senedd yn rhoi llais i bobl ifanc ar faterion a phenderfyniadau sy'n effeithio ar bobl ifanc yn Wrecsam. Mae Senedd yr Ifanc yn gweithio ar faterion lleol a chenedlaethol. Mae Senedd yr Ifanc yn cyfarfod unwaith y mis. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am Senedd yr Ifanc, mae croeso i chi gysylltu â youngvoices@wrexham.gov.uk

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â

# THÎM CYFRANOGIAD WRECSAM


Canolfan Pobl Ifanc Y Fic

13 Stryt yr Allt , Wrecsam LL11 1SN

youngvoices@wrexham.gov.uk

01978 317961


Yma i gael lleisio eich barn a gwneud gwahaniaeth!

Wrecsam Wrexham

Cyngor Gofal Pobl Ifanc

Young People's Care Council

Here to get your voice heard and to make a change!

senedd yr Ifanc

Senedd yr Ifanc Wrecsam

Wrexham Youth Parliament

@wrexhamsenedd

@wrecsamsenedd